**Teitl:** Uwch Ymarferydd Gwaith Cymdeithasol

**Lleoliad:** Gweithio Ystwyth

**Cyfarwyddiaeth:** Gwasanaethau Cymdeithasol Plant

**Rhif Swydd:** BG03405

**Cyflog:** Gradd 9 (£43,693 - £47,754 y flwyddyn)

**Oriau:** 37

**Contract:** Parhaol

## Crynodeb Swydd

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Blaenau Gwent yn dymuno penodi, ar sail barhaol, dri Uwch Ymarferydd Gwaith Cymdeithasol yn seiliedig o fewn y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a'r Timau Bro. Bydd angen i'r ymgeiswyr llwyddiannus ddangos gallu i ymgymryd ag arfer gwaith cymdeithasol cymhleth a gwneud penderfyniadau mewn gwasanaethau cymdeithasol statudol, gallu i gefnogi a goruchwylio staff, gweithio mewn partneriaeth ac yn unol â deddfwriaeth, rheoliadau, canllawiau a pholisïau'r Adran.

## Hysbyseb Law

Mae cyfle cyffrous wedi codi ar gyfer gweithwyr cymdeithasol profiadol gyda chymwysterau (neu uwch ymarferwyr gwaith cymdeithasol presennol) i ymuno â'n tîm Gwasanaethau Plant ym Mlaenau Gwent.

Mae gennym 3 swydd ar gael ar gyfer uwch ymarferwyr gwaith cymdeithasol ac edrychwn am bobl egnïol ac ymroddedig i gyflawni gofynion y swyddi.

Bydd yr uwch ymarferwyr gwaith cymdeithasol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth ansawdd uchel yng nghyswllt pob agwedd o'r broses atgyfeirio, gwneud penderfyniadau, asesu a rheoli gofal. Bydd hyn yn cynnwys rheoli achosion cymhleth (yn cynnwys Amddiffyn Plant a gwaith Llys), cadeirio cyfarfodydd cymhleth, goruchwylio staff a sicrhau y caiff gwybodaeth perfformiad a data eu casglu'n gywir a'u cofnodi ar system WCCIS a'u monitro yn unol â gofynion adrodd chwarterol.

Mae angen cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru dan gategori Rheolwyr Gofal Cymdeithasol/Gweithwyr Cymdeithasol ar gyfer y swydd hon a bydd angen cofrestru cyn dechrau yn y swydd. Mae gwybodaeth ar sut i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar gael ar y wefan ddilynol https://socialcare.wales

**Mae angen mynediad i gerbyd ar gyfer dibenion gwaith.**

**Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth trwyadl yn ystod y broses recriwtio. Bydd angen i ddeiliad y swydd gwblhau cais am Ddatgelu Cofnodion Troseddol**

Ar gyfer gwybodaeth am ail-gysylltu cyn-weithwyr, gweler Polisi Cyflog y Cyngor.

**Dyddiad Cau:** **19 Rhagfyr 24**

**Dyddiad Cyfweliadau:** **I’w w я w**